# STORI WELEDOL

## THEATR Y GRAND ABERTAWE

Adnodd gweledol ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig neu anawsterau dysgu, synhwyraidd neu gyfathrebu.

Dyma Theatr y Grand Abertawe - croeso!

Bydd y llyfryn hwn yn helpu i'ch paratoi ar gyfer eich ymweliad.

## Ymweld â Theatr y Grand Abertawe

Pan fyddwch yn cerdded i lawr Stryd Singleton, byddwch yn gweld ein hadeilad mawr ger y maes parcio.

Byddwch yn cerdded drwy'r brif fynedfa ac i mewn i'r cyntedd.

O'ch blaen byddwch yn gweld ein swyddfa docynnau a'n tîm cyfeillgar o staff sy'n barod i'ch helpu.  Byddant yn rhoi eich tocynnau i chi ar gyfer y sioe. Gallant ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y theatr.

Yna bydd uchelseinydd yn dweud wrthych pan fydd y drws i'r theatr ar agor. Mae hyn yn golygu y gallwch fynd i mewn os dymunwch.

Dyma ein theatr. Gallwch chi a phobl eraill â thocynnau i weld y sioe eistedd i lawr yn y seddi coch.

Bydd eich tocyn yn dweud wrthych ym mha sedd y gallwch eistedd, ond gallwch holi un o'r tywyswyr os oes angen help arnoch.

Pan fydd y sioe yn barod i ddechrau, bydd y goleuadau mawr yn diffodd yn araf a bydd hi'n mynd yn dywyll. Efallai y bydd rhai pobl yn gwneud ychydig o sŵn o hyd, ond nid yw hyn yn rheswm dros boeni.

Yna bydd yr actorion yn dod ar y llwyfan a bydd y sioe yn dechrau.

Ar y diwedd bydd pawb yn curo eu dwylo. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r actorion fod pawb wedi mwynhau gwylio'r sioe.

Gobeithio y mwynhewch eich ymweliad!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn eich ymweliad, gallwch e-bostio
BlaenTyGrand.Abertawe@abertawe.gov.uk
neu ffoniwch 01792 475715